Cyngor **Abertawe**
Swansea Council

Ffurflen Gais Taliadau Tai Dewisol ar gyfer Treuliau Symud

Adran y Gwasanaethau Ariannol
Canolfan Ddinesig
Heol Ystumllwynarth
Abertawe
SA1 3SN
www.abertawe.gov.uk
01792 635353

Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg o'r Ganolfan Ddinesig

Mae'r ffurflen hon hefyd ar gael mewn print bras o'r Ganolfan Ddinesig

1. Eich Enw a'ch Cyfeiriad Llawn

Enw: _____

Cyfeiriad: _____

_____

Côd Post: _____

Dyddiad Geni: / /

Rhif Yswiriant Gwladol: | | | | | | | | | | | | |

AT DDEFNYDD Y SWYDDFA'N UNIG

Dyddiad y derbyniom y ffurflen hon (stamp)

Rhif yr Hawliad:

2. Manylion Cyswllt

Os ydych yn nodi'ch manylion cyswllt yma, gall ein helpu i brosesu'ch cais yn gynt:

Rhif ffôn yn ystod y dydd: _____ Rhif ffôn symudol: _____

Cyfeiriad e-bost: _____

Daw Taliadau Tai Dewisol (TTD) o gronfa ar wahân â chyllideb gyfyngedig, a chânt eu rhoi fel mesur tymor byr i helpu hawlwyr mewn amgylchiadau anodd iawn. Mae TTD ar gael i bobl sydd eisoes yn cael peth Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol (CC) yn unig, sy'n cynnwys costau tai tuag at eich atebolrwydd rhent.

Ni ddylech fod yn cyflwyno cais am TTD oni bai eich bod yn methu cael arian o unrhyw ffynhonnell arall e.e. Bwrdd Bondiau Abertawe, gorddrafft banc, cerdyn credyd, benthyciadau, benthyca arian gan y teulu etc.

Nid yw TTD yn daliad budd-dal ac ni ellir ei warantu. Os ydych yn llwyddiannus yn y cais hwn, ni chewch eich ystyried fel arfer am TTD pellach ar gyfer treuliau symud yn y dyfodol.

Fel arfer, ni fydd cais am TTD ar gyfer treuliau symud yn llwyddiannus os yw'ch cartref presennol yn addas i'ch gofynion ac os nad oes gennych amgylchiadau eithriadol ar gyfer symud neu os yw'n amlwg na fydd yr eiddo newydd yn fforddiadwy ac y gallai arwain at golli cartref/digartrefedd yn y dyfodol.

Os ydych yn derbyn Budd-dal Tai, dylech gysylltu â'r Is-adran Budd-daliadau i holi faint o Fudd-dal Tai y byddech yn ei dderbyn yn eich cyfeiriad newydd cyn i chi wneud cais am TTD. Mae rhai cyfyngiadau ar waith a allai gyfyngu ar y swm y gellid ei dalu i chi a fydd yn cael effaith ar eich gallu i fforddio'r eiddo newydd.

Yn anffodus, ni fyddwn yn gallu rhoi unrhyw gyngor i chi ar faint o help y byddwch yn ei dderbyn tuag at eich rhent os ydych yn derbyn Credyd Cynhwysol, oherwydd yr Adran Gwaith a Phensiynau fydd yn talu hwn i chi.

Am gyngor neu gymorth gyda'r ffurflen hon, gallwch ffonio ☎ **01792 635885**

Dychweler y ffurflen hon i'r:

✉ **Is-adran Budd-daliadau, Canolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg. Caiff unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg ei hateb yn y Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and this will not lead to a delay.

3. Eich incwm

Oes gennych hawl i Gredyd Cynhwysol (CC) sy'n cynnwys costau tai tuag at eich atebolrwydd rhent? Oes ☐ Nac oes ☐

Os Oes, bydd angen i chi ddarparu'r llythyr rydych wedi'i dderbyn oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n dangos sut cafodd eich hawliad CC ei gyfrifo. Does dim angen i chi gwblhau adran 4 y ffurflen hon.

Os **Nac oes**, ewch i Adran 4.

4. Hepgor y bond neu'r rhent ymlaen llaw.

Fel arfer, telir taliadau Budd-dal Tai ar gyfer llety a rentir yn breifat yn uniongyrchol i'r tenant bob pythefnos fel ôl-ddyled ac nid i landlordiaid / asiantiaid.

Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn gallu cytuno i drefnu taliadau uniongyrchol i'ch landlord neu'ch asiant os byddent yn ystyried hepgor y gofyniad am fond neu rent ymlaen llaw.

Mae'n rhaid i chi drafod hyn â'ch landlord newydd neu ei asiant cyn cyflwyno'r ffurflen hon.

Ydych chi wedi holi'ch landlord / asiant newydd ynghylch hepgor y bond neu'r rhent ymlaen llaw?

Ydw ☐ Beth oedd y canlyniad? _____

Darparwch lythyr oddi wrth eich landlord neu asiant i gadarnhau'r canlyniad.

Nac Ydw ☐ Pam? _____

Os ydych yn ticio 'Na' gall eich cais TTD gael ei wrthod.

5. Cyfeiriad yr eiddo NEWYDD

_____

Pwy fydd yn byw gyda chi yn eich cyfeiriad newydd

Enw	Perthynas	Dyddiad geni

Sawl ystafell wely sydd yn yr eiddo newydd? _____

Faint o ystafelloedd gwely ydych chi a'ch teulu'n eu defnyddio? _____

Ydych chi'n rhannu unrhyw ran o'ch eiddo ag unrhyw un arall heblaw am eich teulu? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Pryd rydych chi'n disgwyl i'r denantiaeth newydd ddechrau? _____

Faint yw'r rhent ar gyfer yr eiddo newydd? £ _____

Pa mor aml y caiff ei dalu? (Ticiwch) ☐ Bob wythnos ☐ Bob mis ☐ Bob 4 wythnos

Gyda swm y Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol y byddwch yn ei dderbyn, ydych chi'n gallu fforddio i dalu'r rhent sy'n ddyledus yn y cyfeiriad newydd? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os ydych, sut? _____

6. Ar gyfer pa dreuliau rydych chi'n gofyn am gymorth?

Rhowch fanylion yr hyn sy'n cael ei gynnwys yn y costau a darparwch dystiolaeth ategol.

Os ydych yn gofyn am gymorth gyda chostau symud, rhaid i chi ddarparu 3 dyfynbris ysgrifenedig sy'n rhoi manylion y cyfeiriad rydych chi'n symud ohono ac iddo.

Swm	Math

TTD i dalu cost rhent ymlaen llaw neu caiff bond ei dalu'n uniongyrchol i'ch landlord newydd.

Caiff TTD i dalu costau symud ei dalu'n uniongyrchol i chi.
Os oes gennych gyfrif banc, cwblhewch y ffurflen BACS ar dudalen 6.

7. Ydych chi wedi gofyn i unrhyw sefydliad arall am gymorth gyda'r treuliau hyn?

Ydw ☐ I bwy rydych wedi gofyn a beth oedd yr ateb?

Nac ydw ☐ Pam?

8. Manylion cyswllt eich landlord/asiant newydd (os yw'n berthnasol)

Enw'r landlord:

Cyfeiriad:

Rhif ffôn y landlord:*

Enw'r asiant:

Cyfeiriad:

Rhif ffôn yr asiant:*

*Rhaid i chi roi rhif ffôn eich landlord / asiant.

A ydych yn cytuno i'r hawliad hwn gael ei drafod â'ch landlord neu eich asiant newydd? Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydych yn ticio 'Nac ydw', efallai na fyddwn yn gallu cael yr wybodaeth y mae ei hangen arnom i benderfynu ar eich hawliad am Daliadau Tai Dewisol.

9. Pam mae angen i chi symud eiddo?

Mae'n rhaid i chi roi rheswm neu caiff eich cais ei wrthod

10. Wnaethoch chi dalu bond ar gyfer y cyfeiriad rydych chi'n ei adael? Do ☐ Naddo ☐

Os naddo, ewch i gwestiwn 11.

Os do, cadarnhewch hyn: a) Faint daloch chi? £

b) Ydych chi'n disgwyl cael y bond yn ôl?

Ydw ☐ Os ydych, pryd? / /

Nac ydw ☐ Os na, pam?

11. Ydych chi'n cael eich troi allan o'ch cyfeiriad presennol? Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydych, darparwch eich rhybudd o droi allan.

12. Oes gennych chi gyfrifon banc / cymdeithas adeiladu / swyddfa'r post neu unrhyw gyfrifon eraill, boed a ydyn nhw'n cynnwys arian neu beidio? Oes ☐ Nac oes ☐

Bydd angen i chi ddarparu datganiadau am y ddau fis diwethaf ar gyfer eich holl gyfrifon

13. Eich Preifatrwydd

Cyngor Abertawe yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu ar y ffurflen hon. Defnyddir eich gwybodaeth wrth i ni arfer ein hawdurdod swyddogol ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Ni fyddwn yn rhannu'ch data ag unrhyw drydydd parti oni bai fod gofyn i ni neu y caniateir i ni wneud hynny yn ôl gyfraith. Eglurir hyn yn fanylach ar-lein yn www.abertawe.gov.uk/GwybodaethBersonolRefeniwaBudd-daliadau.

Mae cyfraith diogelu data'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data fel un sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg gyhoeddus. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Abertawe yn defnyddio'ch data personol, gan gynnwys eich hawliau fel gwrthrych y data, darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd Corfforaethol yn www.abertawe.gov.uk/hysbysiadpreifatrwydd.

14. Datganiad i'r Hawliwr

Darllenwch y datganiad hwn yn ofalus cyn i chi ei lofnodi a'i ddyddio. Rwy'n datgan fel a ganlyn:

- Os bydd y landlord/asiant newydd yn cytuno i hepgor y bond/rhent ymlaen llaw, telir taliadau Budd-dal Tai i'r landlord/asiant.
- Bydd rhaid i mi ad-dalu unrhyw Daliad Tai Dewisol nad oes gennyf hawl i'w dderbyn.
- Mae'r wybodaeth rwyf wedi'i rhoi ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd y gwn i.
- Os nad oeddwn yn gallu ateb cwestiwn oherwydd fy mod yn aros am wybodaeth, rwyf wedi nodi hyn ar y ffurflen a byddaf yn anfon y manylion atoch ar ôl i mi eu derbyn
- Rwy'n deall y bydd y cyngor yn gwneud unrhyw ymholiadau angenrheidiol i wirio'r wybodaeth yn y ffurflen hon.
- Rwy'n deall y bydd y cyngor yn gwirio, yn croeswirio ac yn gwneud ymholiadau perthnasol ynghylch yr wybodaeth rwyf wedi'i rhoi yn y ffurflen hon.
- Rwy'n deall y gall fod gofyn i mi gyflwyno mwy o wybodaeth bersonol i gefnogi fy nghais, ac y bydd yr wybodaeth hon yn destun yr un rheolau preifatrwydd a gynhwysir yn "Eich Preifatrwydd".
- Rwy'n deall y gallwn gael fy erlyn os rwy'n rhoi gwybodaeth sy'n anghywir neu'n anghyflawn neu'n peidio â rhoi gwybod, yn brydlon neu beidio, am unrhyw newidiadau a allai effeithio ar fy Nhaliad Tai Dewisol.
- Rwy'n deall y bydd y cyngor yn defnyddio'r wybodaeth a'r dystiolaeth rwyf wedi'u darparu i asesu fy Nhaliad Tai Dewisol, ac y gellir defnyddio'r manylion hyn ar gyfer unrhyw ostyngiad, gwasanaeth neu fudd-dal lleol y mae'r cyngor yn ei weinyddu. Gall y cyngor roi gwybodaeth i sefydliadau eraill y llywodraeth neu gyrff allanol, os yw'r gyfraith yn caniatáu hynny.
- Rwyf wedi darllen a deall yr adran "Eich Preifatrwydd"
- Rwyf wedi darllen a deall y datganiad hwn.

Eich llofnod: Dyddiad: / /

15. Cytundeb Landlord / Asiant

Wyddech chi? Yn ôl y gyfraith, os ydych yn derbyn blaendal/bond gan eich tenant ar gytundeb tenantiaeth fyrddaliad sicr, mae'n rhaid i chi ddiogelu'r blaendal hwnnw drwy gynllun diogelu blaendaliadau tenantiaeth a awdurdodir gan y Llywodraeth, o fewn **30** diwrnod i'w dderbyn.

Os rhoddir cymorth i'ch tenant ar gyfer blaendal/bond, efallai gofynnir i chi gadarnhau rhif adnabod blaendal y Cynllun Diogelu Blaendaliadau Tenantiaeth i Ddinas a Sir Abertawe.

Am fwy o wybodaeth am y cynlluniau hyn, ewch i **www.gov.wales/topics/housing-and-regeneration/publications/tenancydepositsafe/?skip=1&lang=cy**.

Mae arian ar gyfer cynorthwyo tenantiaid i dalu rhent neu fondiau ymlaen llaw yn brin ac ni ellir gwarantu ceisiadau am gymorth.

Os bydd eich tenant newydd yn gwneud cais am Fudd-dal Tai i'w gynorthwyo â'i daliadau rhent ar gyfer eich eiddo, byddwn fel arfer yn talu Budd-dal Tai **yn uniongyrchol i'r tenant bob pythefnos fel ôl-ddyled**. Nid yw taliadau fel arfer yn cael eu talu'n uniongyrchol i landlordiaid / asiantiaid. Os yw'ch tenant yn derbyn Credyd Cynhwysol, bydd yn derbyn help ar gyfer ei rent yn uniongyrchol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Nid yw taliadau fel arfer yn cael eu talu'n uniongyrchol i landlordiaid / asiantiaid.

i) Os byddai Dinas a Sir Abertawe yn cytuno i dalu taliadau Budd-dal Tai yn uniongyrchol i chi fel landlord / asiant, yn lle'r tenant, a fyddech chi'n barod i hepgor y gofyniad am rent neu fond ymlaen llaw:-

Ar gyfer bond	Byddwn	☐	Na fyddwn	☐
Ar gyfer rhent ymlaen llaw	Byddwn	☐	Na fyddwn	☐

ii) Os bydd y tenant newydd yn llwyddiannus yn ei gais am dreuliau symud megis bond, byddwn yn talu'r arian hwn yn uniongyrchol i'r landlord/asiant yn unig. Mae hyn ond yn bosib os ydych chi'n cytuno i ad-dalu unrhyw arian a dalwyd i chi, os am ryw reswm, nad yw'r tenant yn symud i'r eiddo neu'n byw yn yr eiddo. Os nad ydych yn cytuno, caiff ei gais ei wrthod.

Ydych chi'n cytuno i ad-dalu unrhyw swm a dalwyd i chi gan Ddinas a Sir Abertawe am rent neu fond ymlaen llaw os na fydd y tenant yn ymgymryd â'r denantiaeth neu'n symud i mewn?

Ydw	☐	Nac ydw	☐

Mae'n rhaid i chi ddarllen y manylion yn adrannau 4, 5 ac 8 y ffurflen hon a gofnodwyd gan y tenant, a chadarnhau eu bod yn gywir. Sicrhewch fod eich rhif ffôn wedi'i nodi fel y gallwn gysylltu â chi gydag unrhyw ymholiadau a allai gyflymu'r cais. Cwblhewch y ffurflen BACS ar dudalen 7.

16. Datganiad

Mae'n RHAID i'r datganiad hwn gael ei lofnodi gan y person neu'r sefydliad a fydd yn derbyn y taliad.

Rwy'n cadarnhau, fel landlord / asiant* yr eiddo newydd arfaethedig, fy mod wedi darllen adrannau 4, 5, ac 8 y ffurflen hon ac yn cadarnhau bod y manylion a roddwyd yn wir.

Rwy'n deall:

- Os rwyf yn rhoi gwybodaeth sy'n anghywir ar y ffurflen hon, gallaf gael fy erlyn ac efallai y bydd angen i mi ad-dalu unrhyw Daliad Tai Dewisol nad oes hawl gan y tenant iddo lle talwyd y taliad hwn yn uniongyrchol i mi.
- Rwy'n rhoi caniatâd i'r cyngor wirio a thrawswirio'r wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen hon, a gwneud unrhyw ymholiadau angenrheidiol yn ei chylch.

*Llofnod landlord / asiant:		Printiwch eich enw:	
Sefydliad (os yw'n berthnasol):		Dyddiad:	

*Dilëer fel y bo'n briodol

CAIS I DALIADAU TAI DEWISOL GAEL EU TALU I GYFRIF BANC/CYMDEITHAS ADEILADU TRWY BACS

Talwch Daliadau Tai Dewisol (costau symud yn unig) yn uniongyrchol i'm cyfrif banc/cymdeithas adeiladu trwy BACS fel a fanylir isod:

Sylwer na allwn wneud taliadau i gyfrifon cerdyn Swyddfa'r Post.

RHOWCH EICH MANYLION ISOD

Enw'r Banc/Gymdeithas Adeiladu:	
Cyfeiriad:	
Côd Post:	
Côd Didoli:	
Rhif Cyfrif: DS: nodwch y **Gofrestrif** ar gyfer cyfrifon cymdeithas adeiladu	
Enw'r Cyfrif: (er enghraifft Mr. J Jones)	

SYLWER Y BYDD OEDI WRTH DALU TRWY'R DULL HWN OS NA RODDIR YR HOLL FANYLION UCHOD.

BYDD CEISIADAU SYDD HEB EU LLOFNODI'N CAEL EU DYCHWELYD.

Llofnod:	
Dyddiad:	

CAIS I DALIAD TAI DEWISOL GAEL EI DALU I GYFRIF BANC / CYMDEITHAS ADEILADU LANDLORD (NEU GYFRIF ASIANT LANDLORD) TRWY BACS

Os ydych eisoes yn derbyn taliadau budd-dal ar gyfer tenant(iaid) arall/eraill, byddwn yn talu'r HOLL daliadau i un cyfrif banc. Rhaid i chi roi manylion y cyfrif banc rydych am i'r holl daliadau gael eu talu iddo yn y dyfodol.

Talwch Daliadau Tai Dewisol yn uniongyrchol i'm cyfrif banc/cymdeithas adeiladu trwy BACS yn unol â'r manylion isod:

RHAID I'R PERSON A LOFNODODD Y CYTUNDEB LANDLORD / ASIANT GWBLHAU HYN

Enw'r Banc/Cymdeithas Adeiladu:	
Cyfeiriad:	
Côd Post:	
Côd Didoli:	
Rhif Cyfrif: DS: nodwch y **Gofrestrif** ar gyfer cyfrifon cymdeithas adeiladu	
Enw'r Cyfrif: (er enghraifft Mr. J Jones)	

SYLWER Y BYDD OEDI WRTH DALU TRWY'R DULL HWN OS NA RODDIR YR HOLL FANYLION UCHOD.

BYDD CEISIADAU SYDD HEB EU LLOFNODI'N CAEL EU DYCHWELYD. OS YDYCH YN LLOFNODI AR RAN CWMNI NEU SEFYDLIAD, NODWCH EICH SWYDD.

Llofnod(au):		
Swydd (os yw'n berthnasol)		
Printiwch eich enw:		Dyddiad: / /